

# Llangwm/Pwynt Blacktar

## Teithiau Byr



**GRADDFA:** 0 300 600 m

**PELLTER/HYD:** 3.5 Milltir (5.6 km) 1 awr 30 munud

**CLUDIANT CYHOEDDUS:** Bws gwasanaeth Llangwm 308/309

**CYMERIAD:** Hawdd i gymedrol, caeau a da byw, coetir, gall fod yn fwdlyd mewn manau, 0.6 milltir (1.0 km) o gerdded ar isffyrdd

**CHWILIWCH AM:** Golygfeydd o Foel Cwmcerwyn (y man uchaf yn Sir Benfro) • coetir ac aber • golygfeydd gwych o'r afon • rhydwy, hwyaid a chrëyr • cychod hwylio

### COD CEFN GWLAD!

- Mwynhewch y cefn gwlad a pharchu ei fywyd a'i waith
- Gochelwch rhag unrhyw risg o dân
- Gadewch glwydi ac eiddo fel rydych chi'n eu cael nhw
- Cadwch eich ci dan reolaeth dynn
- Cadwch at y llwybrau cyhoeddus wrth groesi tir amaethyddol
- Ewch â'ch sbwriel adref gyda chi

### ALLWEDD


●●●● Llwybr Cylch

▬▬▬▬ Llwybrau Cyhoeddus

**P** Maes Parcio

**WC** Toileadau Cyhoeddus

Safle Bws



# Llangwm/Pwynt Blacktar

## Teithiau Byr

**Hyd:** 1 awr 30 munud

**Pellter:** 3.5 milltir (5.6 km)

**Cludiant cyhoeddus:** Bws gwasanaeth Llangwm 308/309

**Cyfeirnod map:** SM990093

Mae'r dirwedd o amgylch pentref Llangwm yn hynod o nodweddiadol o dir y Daugleddau, tir fferm tonnog, coetir a golygfeydd gwych dros y Cleddau, rhan o'r rhwydwaith o gymoedd afon a orlifwyd gan godiad y môr ar ddiwedd yr Oes Iâ diwethaf.

Mae'r daith yn wahanol iawn, gan ddibynnu ar y llanw. Pan fydd y dŵr ar ei bwynt lleiaf mae'r mwd a'r gors yn agored ac yn denu rhydwyr fel y goesgoch a'r gylfinir i fwydo.

Mae'r enwau Black Tar a Pwynt Blacktar yn atgof o'r diwrnodau pan fyddai'r afon o amgylch Llangwm wedi bod yn brysurdeb o bysgotwyr. Defnyddiwyd tar i gadw cychod yn ddiddos.

Roedd penwaig yn fusnes mawr i borthladdoedd gorllewin Prydain hyd nes yr aeth yr heigiau anferth o bysgod yn llai a llai cyffredin tua diwedd y 19eg ganrif. Roedd gan Sir Benfro fflyd fawr o gychod bach a fyddai'n mynd ar ôl y pysgod bach yn ystod misoedd yr Haf ac roedd Llangwm yn un o'r porthladdoedd penwaig.

Unwaith y daliwyd y pysgod roedd yn rhaid eu prosesu ar frys. Fe fyddai'r mwyafrif yn cael eu halltu mewn casgenni mawr, tra byddai eraill yn cael eu mygu.

Roedd dynion a menywod Llangwm yn rhan annatod o'r pysgota. Yn ogystal â phenwaig, fe fyddai'r bobl leol yn

dal eog a brithyll môr a physgod cregyn - yn enwedig wystrys.

Roedd Brian John, un o haneswyr Sir Benfro, yn dweud mai'r menywod oedd yn rheoli'r ffordd y gwerthwyd y pysgod a ddaliwyd a bod 'y pentref cyfan wedi ei drefnu ar linellau matriarchaidd mewn cymdeithas dynn, gaeedig bron, gyda'i thafodiaith ei hun'.

Mae'r ddyfrffordd yn heddychlon heddiw, ond rhaid bod y ddyfrffordd wedi bod yn lle prysur iawn yn ystod y 19eg ganrif. Yn ogystal â'r cychod pysgota bach niferus, roedd cychod camlas yn llawn glo yn teithio ar hyd y dŵr i'w lwytho ar gychod mwy o faint yn y dŵr dyfnach ym Mhwll Llangwm.

